

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL PLANT A GWAITH CYMDEITHASOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol (y “Bil”) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Mai 2016. Gellir gweld copi o'r Bil yn:
<http://services.parliament.uk/bills/2016-17/childrenandsocialwork.html>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwella penderfyniadau a chefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal yn Nghymru a Lloegr; gan alluogi dysgu gwell am ddulliau effeithiol o amddiffyn plant a'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol plant ehangach yn Lloegr a galluogi sefydlu cyfundrefn reoleiddio newydd yn benodol ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn Lloegr.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.
5. Mae gan y Bil amryw o fesurau sydd yn gymwys i Loegr yn unig, sy'n cynnwys:
 - darpariaethau wedi'u targedu at wella penderfyniadau a chefnogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal
 - egluro pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn awdurdod lleol i sicrhau perfformiad priodol i grŵp o awdurdodau sydd wedi cyfuno eu gwasanaethau o dan drefniadau Bargaen Ddinesig neu gyffelyb
 - galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant ar gyfer adolygu achosion diogelu plant difrifol yn Lloegr a chyhoeddi canlyniadau
 - darpariaethau ynghylch rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol.

6. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru a Lloegr yn ymwneud ag achosion gofal a mabwysiadu sy'n ymestyn yr ystod o ffactorau sy'n rhaid i lysoedd ac asiantaethau mabwysiadu eu hystyried wrth wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â mabwysiadu plentyn.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. Ceisir cydsyniad ar gyfer agweddau ar ddiwygio cymal 9 y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Nash ac a gyhoeddwyd yn y Rhestr gyfredol o ddiwygiadau ar 11 Hydref.
8. Mae adran 1 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn nodi'r materion sy'n rhaid i lysoedd ac asiantaethau mabwysiadu eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu plentyn. Bydd diwygio cymal 9 o'r Bil yn cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ystyried yr un ffactorau â'r rheini sy'n gymwys i asiantaethau mabwysiadu yn Lloegr a'r llysoedd. Mae hyn drwy ddiwygio'r diwygiad presennol a wneir i adran 1 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Bydd diwygio'r Bil yn golygu, i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru, fod darpar fabwysiadwyr erbyn hyn yn cael eu cynnwys ar y rhestr o berthnasod sy'n rhaid iddynt eu hystyried wrth wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â mabwysiadu plentyn.
9. Ceisir cydsyniad ar gyfer yr elfen asiantaeth fabwysiadu o'r ddarpariaeth gan ei bod yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau ei bod yn ymwneud ag amddiffyn a llesiant plant (gan gynnwys mabwysiadu a maethu) o dan baragraff 15 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

10. Bydd gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru yn y Bil yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau bod mabwysiadu yn opsiwn pwysig ar gyfer rhoi sefydlogrwydd i'w ystyried pan nad oes modd i blant gael eu magu gan eu teuluoedd biolegol. Bydd y ddarpariaeth ddiwygiedig yn sicrhau cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â mabwysiadu drwy sicrhau bod asiantaethau mabwysiadu a leolir yng Nghymru yn ystyried ansawdd y berthynas sydd gan y plentyn â'i ddarpar fabwysiadwyr.
11. Bydd diwygio'r Bil fel hyn hefyd yn rhoi eglurder mewn achosion ag iddynt elfen drawsffiniol drwy alluogi'r un darpariaethau i gael eu cymhwyso i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd. At hynny, bydd y Bil yn dod â newidiadau i rym ar gyfer asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ar yr un pryd â'r llysoedd. Bydd hyn yn darparu dull rhesymegol ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwestiynau yn gysylltiedig â mabwysiadu a bydd dim oedi rhwng cymhwyso'r gofynion newydd ar y llysoedd a'u cymhwyso mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i'r darpariaethau gael eu cymhwyso mewn perthynas â Chymru.

Casgliadau

13. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru. Mae'n bwysig bod y darpariaethau yn berthnasol i asiantaethau mabwysiadu a leolir yng Nghymru gan y bydd yn galluogi i ddull rhesymegol o ymdrin â mabwysiadu gael ei ddilyn o ran y llysoedd ac asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru a rhwng asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ac yn Lloegr.

Carl Sargeant AC

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Hydref 2016**